



CRAFFU ER MWYN GWELLA

LLAWLYFR CRAFFU 2014-17

CEFNDIR

Pwrpas y Llawlyfr yma yw cyflwyno arweiniad mwy manwl ar y broses o weithredu Strategaeth Craffu Cyngor Gwynedd. Mae'r Llawlyfr hwn yn manylu ar y broses o lunio rhaglenni gwaith craffu, rôl a chyfrifoldebau'r pwyllgorau craffu a'r pwyllgor archwilio, manylion am yr ymchwiliadau craffu ac ymgysylltu, ynghyd â'r adnoddau sydd ar gael i arwain a chefnogi cyfundrefn craffu'r Cyngor.

BETH?

Y Rhaglen Waith Craffu

Mae'r Pwyllgorau Craffu yn llunio eu rhaglen waith eu hunain, a hynny yn annibynnol. Mae'r rhaglen waith yn raglen fyw y gellir ei haddasu ar unrhyw adeg. Mae rhaglen waith y pwyllgorau craffu yn codi o 5 lle:

i.) Gweithdai Blynyddol Craffu

Mae gweithdai blynyddol craffu a gynhelir gydag aelodau'r pwyllgorau craffu yn canolbwyntio ar adnabod materion i'w cynnwys ar y blaenraglen craffu am y flwyddyn i ddod. I gynorthwyo'r aelodau i adnabod materion priodol i'w cynnwys ar y flaenraglen, rhennir gyda hwy:

- Cofrestr Risg
- Adroddiad Perfformiad
- Cynllun Strategol
- Strategaeth Gymunedol
- Blaenraglen Y Cabinet
- Blaenraglenni blaenorol
- Rhaglen Archwilio Mewnol / Allanol
- Adroddiadau Rheoleiddwyr
- Negeseuon o unrhyw ymgysylltu neu ymgynghori perthnasol

Mae'r dogfennau hyn, ynghyd â materion unigol yn sail gadarn i alluogi'r aelodau i adnabod materion i'w cynnwys ar flaenraglen y pwyllgorau craffu.

At hyn, er mwyn cynorthwyo'r aelodau i adnabod y materion cywir i'w cynnwys ar eu blaenraglenni am y flwyddyn, fel rhan o'r strategaeth, byddwn yn datblygu meini prawf fel adnodd i arfogi'r aelodau i adnabod y materion cywir i'w cynnwys ar y blaenraglen craffu.

ii.) Materion yn Codi

Mae pwyllgorau craffu yn ystyried materion unigol, yn ogystal â materion sy'n codi yn ystod y flwyddyn. Gall y materion hyn ddod i sylw aelodau yn uniongyrchol, neu gallent godi yn sgil ceisiadau gan aelodau o'r cyhoedd i gynnwys eitemau penodol ar y rhaglen. Ymhob achos, dylid sicrhau sail resymegol pendant dros gyflwyno'r eitem, a dylai'r rhesymeg gysylltu gyda meini prawf a ddatblygir i'w defnyddio gan y pwyllgorau wrth lunio eu blaenraglenni gwaith. Dylid hefyd drafod materion sy'n codi efo'r Aelod Cabinet a/neu swyddogion perthnasol yn y lle cyntaf i geisio sicrhau datrysiad buan a

hwylus, cyn penderfynu a yw yn fater priodol i'w graffu. Fel rhan o'r strategaeth, byddwn yn datblygu trefn i ffurfioli hynny.

Yn yr un modd, gall y Cadeirydd mewn ymgynghoriad efo'r pwyllgorau craffu wrthod ceisiadau gan gyd-aelodau a/neu'r cyhoedd i gynnwys eitemau penodol ar y rhaglen. Wrth wneud hynny, rhaid cyflwyno sail resymegol eglur dros y penderfyniad. Gallai'r sail resymegol yma gysylltu â meini prawf y bydd y pwyllgorau wedi'u defnyddio wrth lunio eu blaenraglenni gwaith.

iii.) Blaenraglen y Weithrediaeth (Cabinet)

Un o swyddogaethau'r pwyllgorau craffu yw herio penderfyniadau a chyflwyno argymhellion i'r Weithrediaeth (Cabinet), gan sicrhau atebolrwydd y Weithrediaeth (Cabinet) yn gyhoeddus.

O fod yn ymwybodol o gynnwys blaenraglen y Weithrediaeth (Cabinet) mae'r pwyllgorau craffu yn dod i farn:

- a ydynt yn dymuno craffu eitem ar y blaenraglen ai peidio
- os am graffu eitem ar y blaenraglen, a ydynt yn dymuno gwneud hynny cyn neu ar ôl i'r Weithrediaeth (Cabinet) wneud penderfyniad.

Mewn rhai achosion, mae gan bwyllgorau craffu yr hawl i alw i mewn benderfyniad y Weithrediaeth (Cabinet). Golyga hyn rewi'r penderfyniad hyd nes y bydd y pwyllgor craffu yn ei ystyried. Yn dilyn hynny, bydd rhaid i'r Weithrediaeth (Cabinet) ystyried sylwadau a/neu argymhellion y pwyllgor craffu gan addasu neu lynu wrth eu penderfyniad.

iv.) Cais Aelod Cabinet

Yn achlysurol, gall Aelod Cabinet gyflwyno cais i bwyllgor craffu yn gofyn iddynt graffu polisi neu fater penodol ar eu rhan, gan gyflwyno sylwadau a/neu argymhellion i'r Aelod Cabinet fyddai'n eu cynorthwyo i ddod i gasgliad a gwneud penderfyniad. Gall pwyllgor craffu dderbyn neu wrthod y cais gan yr Aelod Cabinet, yn arbennig os nad yw'r mater eisoes wedi ei adnabod ar flaenraglen y pwyllgor craffu, neu os nad yw'n cydymffurfio gyda'r meini prawf.

v.) Awgrymiadau Swyddog

Yn achlysurol, gall swyddogion hefyd awgrymu y dylai pwyllgor craffu ystyried craffu mater penodol, gan gyflwyno sylwadau a/neu argymhellion i'r swyddogion fyddai o gymorth i'w galluogi i adolygu polisi, ailfodelu gwasanaethau, neu wneud penderfyniadau, gan fod y craffwyr yn glust a llais i bobl leol a defnyddwyr gwasanaethau. Gall y Cadeirydd mewn ymgynghoriad efo'r pwyllgor craffu dderbyn neu wrthod awgrym gan swyddog(ion), yn arbennig os nad yw'r mater eisoes wedi ei adnabod ar flaenraglen y pwyllgor craffu, neu os nad yw'n cydymffurfio gyda'r meini prawf.

Mae rhaglenni gwaith y pwyllgorau craffu yn hyblyg er mwyn gallu ymateb i flaenoriaethau sy'n newid. Mae'r pwyllgorau craffu yn cyhoeddi eu blaenraglenni gwaith ac yn eu diweddarau yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn er mwyn sicrhau fod yr eitemau ar y rhaglen yn amserol, ac er mwyn gallu

addasu i flaenoriaethau sy'n newid. Mae'r blaenraglenni gwaith yn cael eu diweddarau'n gyson a'u cyhoeddi ar wefan y Cyngor.

Y Maes Craffu

Mae'r Cyngor wedi penodi'r Pwyllgorau Craffu canlynol i gyflawni'r swyddogaethau a roddwyd gan Adran 21 Deddf Llywodraeth Leol 2000. Ar hyn o bryd, rhennir meysydd gwaith Pwyllgorau Craffu'r Cyngor fel a ganlyn:

Themâu	Meysydd
Corfforaethol	Strategaeth Corfforaethol Partneriaethau Ymgysylltu Trawsnewid Busnes Effeithlonrwydd Gwasanaethau Gwasanaethau Yfory Cytundeb Canlyniadau Gweithlu Gofal Cwsmer (Hawl galw i mewn materion Pwyllgor Archwilio)
Cymunedau	Adfywio ac Economi Gwynedd Werdd Amgylchedd Rhwydwaith Trafnidiaeth a Chludiant Cymunedol Grymuso Cymunedau Gwastraff Tai Iaith Lleihau ôl troed carbon Cynllun Datblygu Unedol
Gwasanaethau	Pobl Hŷn Oedolion Teuluoedd Plant a Phobl Ifanc Addysg Llwybr i gyflogaeth Iechyd

Mae'r rhaniad yma'n adlewyrchu traddodiad craffu o ddarparu her fewnol i wasanaethau'r Cyngor:

Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i osod dyletswydd newydd ar bwyllgorau craffu awdurdodau lleol i graffu darparwyr gwasanaethau cyhoeddus eraill yn eu hardal. Yn ystod cyfnod y strategaeth yma ar sail yr adnoddau sydd ar gael, byddwn angen ystyried y ffordd orau o gefnogi a chynorthwyo pwyllgorau craffu'r Cyngor i gyflawni'r dyletswydd newydd yma pan ddaw i rym.

At hyn, disgwylir i'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol fod yn destun proses craffu effeithiol fyddai'n rhoi ystyriaeth i gadernid y broses o ddadansoddi

anghenion; i ba raddau mae'r cynllun integredig sengl yn diwallu'r anghenion hynny yn effeithiol; a oes adnoddau digonol wedi eu neilltuo; ac i ba raddau y mae'r cynllun yn cael ei weithredu'n effeithiol. Yng Ngwynedd mae'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol yn gwasanaethu ardal Gwynedd a Môn. Yn ystod cyfnod y strategaeth yma, byddwn yn ystyried y posibilïadau o gydweithio gyda Chyngor Sir Ynys Môn i sefydlu trefniadau craffu ar y cyd ar waith y Bwrdd Gwasanaethau Lleol, gan ddatblygu ymhellach ar y gwaith sydd eisoes wedi ei gyflawni i graffu ar y cyd, gan fanteisio ar gefnogaeth ac arbenigedd cyrff fel y CfPS. gyda'r ffocws amlwg ar wella gwasanaethau, a'r effaith ar y dinesydd.

Cyfarfodydd Paratoi

Pwrpas y cyfarfodydd paratoi yw i ystyried y rhaglen waith, penderfynu ar y materion hynny sydd i'w cynnwys ar raglen y pwyllgor craffu nesaf, a pha ddull i graffu'r materion hynny. Yn y cyfarfodydd paratoi, penderfynir a oes mater i'w graffu ai peidio, a pha dystiolaeth a chwestiynau sydd yn briodol ar gyfer y pwyllgor craffu (gan roi pwyslais pendant ar yr effaith ar y dinesydd), a phwy sydd angen dod gerbron.

Cynhelir y cyfarfodydd paratoi o leiaf 5 wythnos cyn y pwyllgor craffu, ac yma hefyd penderfynir pa ddull sydd yn fwyaf addas i graffu pob mater, megis sesiwn holi ac ateb, cyflwyniad, adroddiad a/neu ymchwiliad.

Fforwm Craffu

Mae'r Fforwm Craffu yn cyfarfod yn chwarterol ac yn cynnwys cadeiryddion ac is-gadeiryddion y pwyllgorau craffu. Mae gan y Fforwm Craffu rôl allweddol i roi arweiniad ar faterion cyfansoddiadol a threfniadol, sicrhau trosolwg o'r maes a chydweithio ystyrlon ar draws y pwyllgorau craffu, rhoi arweiniad ar berthynas craffu gyda'r Weithrediaeth (Cabinet), ynghyd ag ystyried cynnwys adroddiadau perfformiad y Cyngor gan gyfeirio achosion o risg neu danberfformiad i sylw'r pwyllgorau craffu perthnasol.

SUT?

Pwyllgorau Craffu

Cyfrifoldeb y pwyllgorau craffu yw:

- i.) adolygu a/neu graffu ar benderfyniadau a wnaed neu gamau a gymerwyd mewn cysylltiad â chyflawni unrhyw rai o swyddogaethau'r Cyngor
- ii.) rhoi adroddiadau a/neu argymhellion i'r Cyngor a/neu'r Weithrediaeth (Cabinet) mewn cysylltiad â chyflawni unrhyw swyddogaethau
- iii.) ystyried unrhyw fater sy'n effeithio ar yr ardal neu ei thrigolion
- iv.) ymarfer yr hawl i alw i mewn er mwyn ailystyried penderfyniadau a wnaed ond nad ydynt eto wedi eu gweithredu gan y Weithrediaeth (Cabinet)
- v.) ymarfer yr hawl i graffu unrhyw fater gan gyrff allanol a phartneriaethau sy'n cael effaith ar y dinesydd.

Mae gan y pwyllgorau trosolwg a chraffu rôl benodol i:

- i.) adolygu polisi ac adolygu datblygiad polisi
- ii.) casglu tystiolaeth, gwneud gwaith ymchwil a llunio argymhellion i'w cyflwyno i'r Weithrediaeth (Cabinet)/Cyngor
- iii.) adolygu a chraffu ar y penderfyniadau a wnaed ac ar berfformiad y Weithrediaeth (Cabinet) a/neu bwyllgorau a swyddogion y Cyngor mewn perthynas â phenderfyniadau unigol, polisi, a pherfformiad dros amser

Mae 3 pwyllgor craffu yng Ngwynedd:

- Corfforaethol
- Cymunedau
- Gwasanaethau

ac fe'i pennwyd gan y Cyngor i gyflawni'r swyddogaethau a roddwyd gan Adran 21 Deddf Llywodraeth Leol 2000.

O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, mae gan y Pwyllgor Archwilio hefyd swyddogaeth craffu fel y gwelir isod.

Mae'r pwyllgorau craffu yn cynnwys 18 o aelodau wedi eu penodi ar sail cydbwysedd gwleidyddol. Caiff cadeiryddion y pwyllgorau hyn eu penodi ar sail cydbwysedd gwleidyddol hefyd, ac yn unol â darpariaethau Rhan 6, Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011. Mae manylion cyswllt y pwyllgorau hyn wedi eu cyhoeddi ar y we.

Mae meysydd gwaith penodol wedi eu sefydlu i'r 3 pwyllgor craffu yng Ngwynedd er mwyn cyfarch dyheadau'r aelodau i fod ynghlwm â meysydd craffu penodol, ynghyd â bod yn ddull o sicrhau eglurder i'r aelodau, swyddogion a'r cyhoedd o'r gwahaniaethau rhwng y 3 pwyllgor. Unwaith y flwyddyn, bydd y Pwyllgor Craffu Cymunedau yn gweithredu fel Pwyllgor Trosedd ac Anhrefn.

Pwyllgor Archwilio

Yn yr un modd, mae'r Pwyllgor Archwilio yn cynnwys 18 o aelodau wedi eu penodi ar sail cydbwysedd gwleidyddol, ynghyd ag un aelod lleig. O dan Adran 81 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, mae gan y Pwyllgor Archwilio gyfrifoleb i:

- i.) arolygu materion ariannol yr awdurdod a chraffu arnynt,
- ii.) llunio adroddiadau a gwneud argymhellion mewn perthynas â materion ariannol yr awdurdod.
- iii.) adolygu ac asesu trefniadau'r awdurdod ar gyfer rheoli risgiau, rheolaeth fewnol a llywodraethu corfforaethol,
- iv.) llunio adroddiadau a gwneud argymhellion i'r awdurdod ynghylch digonolrwydd ac effeithiolrwydd y trefniadau hynny,
- v.) arolygu trefniadau archwilio mewnol ac allanol yr awdurdod, ac
- vi.) adolygu'r datganiadau ariannol a lunnir gan yr awdurdod.

Ymchwiliadau Craffu

Mae Ymchwiliadau Craffu yn gyfle i aelodau a enwebir o blith y pwyllgorau craffu i wneud astudiaeth fanwl o bwnc neu fater er mwyn asesu effaith gweithredu polisi a/neu berfformiad gwasanaeth ar lawr gwlad. Caiff ymchwiliadau craffu eu sefydlu pan fo angen craffu rhai materion yn fanwl.

Mae'r ymchwiliadau craffu ar ffurf tasg a gorffen clir, ac maent yn gweithio i fanyleb penodol ac amserlen a osodwyd gan y pwyllgor craffu a/neu Aelod Cabinet, a gall y fanyleb newid yn sgil cychwyn yr ymchwiliad. Mae'r ymchwiliadau craffu yn adlewyrchu trefniadau cydweithio effeithiol rhwng Y Weithrediaeth (Cabinet) a chraffu, a cheir enghreifftiau o arfer dda ble gwelir Aelod Cabinet a phwyllgor craffu yn cydweithredu a chytuno ar gynnwys manyleb ymchwiliad craffu.

Nid ymarferiad pendesg gan swyddogion yw'r ymchwiliadau, yn hytrach fe'u hystyrir fel cyfrwng i alluogi'r aelodau i gyflawni eu rôl yn ystyrion a thrwyadl drwy wneud gwaith ymchwil deallus i faes penodol. Gellir cyflawni hynny drwy amrywio ffyrdd megis ymchwil pendesg, cyfweiliadau, ymgynghori, casglu arfer dda, ac ymweliadau.

Rhydd hyn gyfle i'r aelodau ddod i ddeall rhagor am fater arbennig a'r hyn sydd yn digwydd mewn llefydd eraill, ynghyd â bod yn gyfrwng i sicrhau mewnbyn a thystiolaeth gan bobl leol a defnyddwyr. Cyflwynir adroddiad terfynol ffurfiol yr ymchwiliad gerbron y pwyllgor craffu, ac yna i'r Aelod Cabinet a/neu'r Weithrediaeth (Cabinet) ynghyd â sylwadau a/neu argymhellion yr ymchwiliad er ystyriaeth.

Ar hyn o bryd, cyfyngir ar nifer yr ymchwiliadau a ellir eu cynnal gan bwyllgor craffu ar unrhyw amser. Golyga hynny, un ymchwiliad ar y tro ar gyfer y pwyllgorau craffu corfforaethol a chymunedau, a dau ymchwiliad ar y tro (un addysg ac un gwasanaethau cymdeithasol) ar gyfer y pwyllgor craffu gwasanaethau. Bwriad hyn yw sicrhau adnoddau digonol i gynnal a chefnogi'r ymchwiliadau craffu'n llawn.

Yr ymchwiliadau craffu yw'r cyfrwng gorau ar gyfer sicrhau gwerth ac ansawdd craffu fel cyfrwng i wella perfformiad a gwasanaethau'r Cyngor i drigolion a defnyddwyr. O ganlyniad, yn amodol ar sicrwydd bod adnoddau digonol ar gael i wneud y gwaith yn effeithiol, mae modd ystyried cynyddu nifer yr ymchwiliadau craffu y gellir eu cynnal gan y pwyllgorau craffu.

O gynyddu nifer yr ymchwiliadau, a'r adnoddau angenrheidiol fyddai ar gael i'w cefnogi, byddai ffocws y pwyllgorau craffu fwyfwy ar yr ymchwiliadau, gan leihau nifer y materion o'r blaenraglen y byddai modd i'r pwyllgorau craffu ymgymryd â hwy yn uniongyrchol yn flynyddol. Byddai'r datblygiad hwn yn gyfle i adolygu'r pwyllgorau craffu yn sgil buddsoddi yn yr ymchwiliadau. .

Adroddiad Blynyddol Craffu

Rhaid i bwyllgorau craffu adrodd yn flynyddol i'r Cyngor ynglŷn â sut y maent yn gweithio a gwneud argymhellion ar gyfer rhaglenni gwaith ar gyfer y dyfodol a dulliau gwaith diwygiedig os yn briodol.

Ers sefydlu'r drefn o 3 pwyllgor craffu yng Ngwynedd, mae dwy adroddiad blynyddol trosolwg a chraffu wedi eu llunio a'u cyhoeddi. Mae'r adroddiadau hyn yn canolbwyntio ar yr effaith ar y dinesydd ac yn manylu ar:

- yr holl faterion fu gerbron y 3 pwyllgor craffu yn ystod y flwyddyn
- pa gwestiynau a oedd yn haeddu sylw ym marn y craffwyr
- sylwadau a/neu argymhellion y craffwyr i'r Aelod Cabinet perthnasol
- fanylion ynglŷn â fu i'r Aelod Cabinet gytuno i dderbyn, ystyried neu wrthod sylwadau a/neu argymhellion y craffwyr
- effaith tebygol y gwaith craffu

Mae'r adroddiad blynyddol hefyd yn gyfrwng i adnabod arfer dda a'r hyn ddaru'r pwyllgorau craffu a'r ymchwiliadau eu cyflawni er budd y dinesydd yn ystod y flwyddyn a aeth heibio. Caiff yr adroddiad blynyddol ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor, ac mae'n gyfrwng effeithiol o godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o graffu.

Llais y dinesydd

Cydnabyddir fod ymgysylltu â'r cyhoedd yn elfen hollbwysig o lywodraethu da. Mae nifer o fanteision iddo:

- i.) gall ehangu atebolrwydd a thryloywder y broses benderfyniadau drwy sicrhau fod y cyhoedd yn ymwybodol o sut y gwneir penderfyniadau a gan bwy.
- ii.) gall ymgysylltu wella datblygiad polisi drwy wella'r sail dystiolaeth y sylfaenir polisi arno.
- iii.) drwy sicrhau y gwneir penderfyniadau polisi drwy roi sylw priodol i farn, anghenion a dyheadau dinasyddion a defnyddwyr gwasanaeth.

Mae rôl craffu yn ganolog i ymgysylltu a helpu pobl i deimlo y gallent ddylanwadu ar yr hyn sy'n digwydd yn eu hardal. Mae gan craffu rôl bwysig yn y broses o ysgogi cysylltiadau rhwng gwahanol unigolion a grwpiau, a sianelu gwybodaeth gymunedol i brosesau gwella'r Cyngor.

Felly, mae angen i bobl wybod am y swyddogaeth craffu a sut mae'r Cyngor yn gwneud penderfyniadau, a'r cyfleoedd sydd ar gael iddynt fynegi barn a chyflwyno tystiolaeth i ddylanwadu a gwneud gwahaniaeth yn lleol.

Mae'r pwyllgorau craffu yn agored i'r cyhoedd – ac eithrio pan drafodir materion cyfrinachol neu eithriedig fel y'i diffiniwyd gan y gyfraith – ac mae modd i aelodau o'r cyhoedd gyfrannu eitemau ystyrlon at y rhaglen waith. Ar yr un pryd, byddwn yn datblygu trefn i'r pwyllgorau craffu ystyried cynnwys eitemau penodol a gynigir gan y cyhoedd ar y rhaglen. Wrth benderfynu gwneud hynny neu beidio, disgwylir i'r pwyllgor gyflwyno sail resymegol eglur dros eu penderfyniad. Gallai'r sail resymegol yma gysylltu â meini prawf a ddatblygir i gynorthwyo'r pwyllgorau i lunio eu blaenraglenni gwaith.

Tra mae modd gwneud hyn trwy bwyllgor ffurfiol, yr ymchwiliadau craffu yw'r cyfrwng gorau i sicrhau llais i'r cyhoedd a defnyddwyr gwasanaeth, ynghyd â chyfle iddynt gyflwyno tystiolaeth a phrofiadau fel sail i ddylanwadu ar bolisi

neu wella gwasanaethau. Er mwyn i hyn weithredu'n iawn, mae angen sicrhau cymorth i alluogi'r aelodau i roi ystyriaeth ofalus i hygyrdded a chymhwysedd cyfraniadau cyhoeddus er sicrhau ansawdd yr ymchwiliadau.

Mae angen hefyd ystyried a oes angen mewnbwn bob tro gan y cyhoedd ai peidio. Gall y cwestiynau canlynol helpu yn hynny o beth:

- i.) Pa dystiolaeth ychwanegol allai'r cyhoedd ei ddarparu?
- ii.) A yw barn y gymuned leol eisoes wedi ei gasglu ar y pwnc – a oes data neu wybodaeth sydd eisoes ar gael y gellir ei ddefnyddio?
- iii.) A fydd gan y cyhoedd ddiddordeb ym mhwnc yr ymchwiliad?
- iv.) Beth yw'r manteision/anfanteision o ymgysylltu â'r cyhoedd?
- v.) A fyddwn yn gallu dangos i'r cyhoedd fod ystyriaeth wedi eu rhoi i'w barn a bod y Cyngor wedi gweithredu arnynt ar ddiwedd y broses?

Mae gan y trydydd sector gyfraniad pwysig i'w wneud yn y dasg o ddarparu mewbwn i waith trosolwg a chraffu'r Cyngor hefyd. Gall hyn arwain yn uniongyrchol at wella gwasanaethau cyhoeddus mewn rhai achosion a chryfhau cyfathrebu rhwng dinasyddion, grwpiau diddordeb arbennig a phobl sy'n gwneud penderfyniadau mewn achosion eraill.

PWY?

Cefnogaeth Gyffredinol i'r Craffwyr

Yng Ngwynedd, darperir cefnogaeth i alluogi'r cynghorwyr i gyflawni eu rôl trosolwg a chraffu yn effeithiol gan y:

- Cyfarwyddwyr Corfforaethol
- Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd
- Uwch-Reolwr Comisiynu Corfforaethol
- Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd
- Rheolwr Cefnogi Aelodau a Craffu
- Swyddogion Cefnogi Aelodau a Craffu
- Swyddog Gwella Perfformiad Cynorthwyol Craffu

Yn ystod 2013, rhannwyd y cyfrifoldeb am y Pwyllgorau Craffu fel a ganlyn:

- Corfforaethol Rheolwr Cefnogi Aelodau a Craffu
- Cymunedau Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd
- Gwasanaethau Uwch-Reolwr Comisiynu Corfforaethol

At hyn, manteisir ar arbenigedd ac adnoddau o blith aelodau Grŵp Rheolwyr, Adran Strategol a Gwella i arwain a chefnogi'r ymchwiliadau craffu, ynghyd â'r Swyddog Gwella Perfformiad Cynorthwyol Craffu sydd yn cefnogi gwaith ymchwil sydd ynghlwm â'r ymchwiliadau craffu.

Cymorth a Chefnogaeth Arbenigol i'r Craffwyr

Mae pwyllgorau craffu'n annibynnol, a gallent fanteisio ar arbenigedd er mwyn sicrhau craffu effeithiol. Er enghraifft:

- Tystion: Gall pwyllgorau craffu wahodd pobl i gwrdd â'r pwyllgor, i ateb cwestiynau a rhoi barn.
- Arbenigwyr: Gall pwyllgorau craffu wahodd arbenigwyr o'r tu allan

- i'r Cyngor i gyflwyno tystiolaeth iddynt neu i fynychu cyfarfodydd.
- Cefnogaeth broffesiynol gan staff y Cyngor: Gall pwyllgorau craffu wneud cais am wybodaeth benodol neu barn broffesiynol swyddogion mewn maes arbennig.

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC)

Mae CLILC yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau i helpu i ddatblygu swyddogaeth trosolwg a chraffu yng Nghymru, gan gynnwys cymorth arbennig i awdurdodau unigol, cyhoeddiadau a llawlyfrau sydd yn cynnig cymorth ac arweiniad, ynghyd â bod yn gyfrifol am reoli a chydlynu rhwydweithiau lleol a rhwydwaith gwladol yr hyrwyddwyr craffu.

At hyn, mae CLILC hefyd yn cefnogi cynghorwyr i gyflawni eu rôl yn effeithiol, boed hynny drwy ddisgrifiadau rôl, rhaglenni hyfforddiant megis Academi Arweinyddiaeth, cynnal rhwydweithiau megis Rhwydwaith Genedlaethol Cadeiryddion Craffu, adnabod a rhannu arfer dda, ynghyd â llunio cyhoeddiadau a llawlyfrau byr sydd yn cynnig cymorth ac arweiniad i gynghorwyr mewn amrywiol feysydd.

Yn ystod cyfnod y strategaeth yma, bwriedir manteisio ar gefnogaeth ac arbenigedd CLILC i gefnogi a datblygu'r gyfundrefn craffu a phawb sydd ynghlwm â'r gyfundrefn honno yng Ngwynedd.

Y Rhaglen Gefnogi Craffu yng Nghymru (CfPS)

Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud cytundeb gyda'r Ganolfan Craffu Cyhoeddus er mwyn darparu a chyflwyno rhaglen o gefnogaeth ar gyfer awdurdodau lleol yng Nghymru er mwyn eu cynorthwyo i gryfhau trefniadau atebolrwydd lleol. Mae'r rhaglen yn canolbwyntio ar:

- gefnogi rhwydweithio rhanbarthol a chenedlaethol ymysg ymarferwyr craffu ar draws Cymru, gan gynnwys rhannu a chydlynu rhaglenni gwaith;
- gefnogi ac adeiladu gallu a datblygu sgiliau craffu penodol ar gyfer cynghorwyr;
- gynnal a hwyluso gwaith cefnogol craffu wedi'i dargedu at awdurdodau penodol a grwpiau o awdurdodau;
- weithio gyda "phersonau dynodedig" er mwyn cyflwyno ac egluro craffu ar lywodraeth leol iddynt, gan helpu adeiladu perthynas waith gadarnhaol;
- annog a chymryd rhan mewn gwella craffu ymysg gwahanol sectorau drwy hunanasesiad.

Yn ystod cyfnod y strategaeth yma, bwriedir manteisio ar gefnogaeth ac arbenigedd CfPS i gefnogi a datblygu'r gyfundrefn craffu a phawb sydd ynghlwm â'r gyfundrefn honno yng Ngwynedd.

Adolygiad Datblygiad Personol

Mae Mesur Llywodraeth Lleol (Cymru) 2011 yn gofyn i awdurdodau lleol roi trefniadau mewn lle fyddai'n galluogi aelodau etholedig i gael adolygiad blynyddol o'u anghenion hyfforddi a datblygu. Mae'r adolygiadau hyn yn gyfle i bob aelod, a'r rheiny sydd ar bwyllgorau craffu yn fwyaf arbennig, i adnabod eu anghenion hyfforddi a datblygu. Yn ei dro, bydd hyn yn arwain at sefyllfa

ble byddai'n ofynnol i'r Cyngor ymateb i'r anghenion hynny a darparu cefnogaeth briodol i gynorthwyo'r aelodau i gyflawni eu rôl, boed hynny'n gyffredinol, neu yng nghyd-destun eu rôl trosolwg a chraffu.

Y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus (Williams)

Mae Comisiwn Williams yn dehongli rôl a chyfraniad craffu fel yr unig ddull o sicrhau atebolrwydd cyhoeddus. Serch hynny, adnabu Comisiwn Williams wendidau sylfaenol yn y gyfundrefn craffu presennol, gan arwain at 3 brif argymhelliad, sef:

- i.) Rhaid cydnabod a rhoi blaenoriaeth i bwysigrwydd, statws a gwerth gwaith craffu, a'i gynnal a'i atgyfnerthu'n barhaus (Argymhelliad 31)
- ii.) Rhaid i sefydliadau ystyried craffu fel buddsoddiad i sicrhau gwelliannau ac arbedion yn y dyfodol. Rhaid iddynt felly neilltuo'r adnoddau a'r cymorth priodol ar gyfer y gwaith craffu. (Argymhelliad 32)
- iii.) Rhaid i bwyllgorau craffu llywodraeth leol a chyrff craffu ffurfiol eraill ymgysylltu'n fwy effeithiol â'r cyhoedd a phartneriaid. Dylai hynny gynnwys cyfethol unigolion o grwpiau eirioli a grwpiau eraill ar bwyllgorau craffu er mwyn cynyddu capasiti a gallu pwyllgorau o'r fath i gyflawni gwaith craffu adeiladol a hyddysg. (Argymhelliad 33)

Yn ystod cyfnod y strategaeth yma, bwriedir rhoi ystyriaeth i sut orau y gellir ymateb yn ystyriol a chadarnhaol i'r argymhellion hyn.